**P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Deborah Joanne Munton, ar ôl casglu 4,567 lofnodion ar lein a 1,146 lofnodion ar bapur, sydd yn wneud cyfanswm o 5,713 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd hynafol sy'n gyfoethog o ran diwylliant ac sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, hamdden, lliniaru effeithiau llifogydd, storio carbon a chynhyrchu bwyd. Mae bellach yn wynebu cynigion i ddatblygu sawl cynllun ynni solar enfawr cyfagos, ymhlith cynigion datblygu eraill. Ni all system gynllunio Cymru yn ei ffurf bresennol reoli datblygiadau o'r fath, a byddai'r dinistr y byddai'r datblygiadau hyn yn ei achosi o dan y trefniadau presennol yn rhoi diwedd ar y gwlyptir hardd, bregus a chymhleth hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae pwysau cynyddol am ddatblygiadau ynni solar ar raddfa gyflym iawn, yn ogystal â datblygiadau eraill (fel parciau busnes), ar SoDdGA Gwastadeddau Gwent, yn ogystal â methiant systemig a hirsefydlog i'w reoli. Er enghraifft, mae'r ymdrechion i symud neu hyd yn oed liniaru'r difrod difrifol a achoswyd gan yr unig fferm solar a adeiladwyd yno hyd yma (yn Llanwern), drwy ddefnyddio amodau cynllunio, wedi methu. Mae'n ddigon posibl bod lefelau llygredd yn y safle ac yn agos ato wedi cynyddu. Mae cornchwiglod, aderyn prin sy'n nythu yng Nghymru, wedi'u gyrru i ddifodiant yno. Newid hinsawdd yw'r prif fygythiad i fioamrywiaeth yn fyd-eang. Mae angen gweithredu ar y cyd ym mhob maes polisi, gan gynnwys ynni adnewyddadwy – ond ni ddylai hyn ddod ar draul bioamrywiaeth. Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn drysorau: Maent yn safleoedd o bwysigrwydd ledled y DU sydd wedi'u dynodi'n statudol ar gyfer bywyd gwyllt. Gan gwmpasu dim ond 12 y cant o dir Gymru, ni ddylid eu targedu ar gyfer datblygiadau adeiledig mawr, pan fo miloedd o hectarau o dir a thoeau ledled Gwent a Chymru yn llawer mwy addas.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Mynwy
- Dwyrain De Cymru